# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 6 Mawrth 2014**

Amser:
**10.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Siân Phipps**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582
Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

## Agenda

CYFARFOD CYHOEDDUS FFURFIOL (10.30)

1 **Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

2 **Ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi – cyfweliadau â busnesau bach a chanolig eu maint (fideo) (10.30-10.55)**

3 **Papurau i'w nodi** (Tudalennau 1 - 4)

4 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn: trafod y ffilm o gyfweliadau ag entrepreneuriaid busnesau bach a chanolig eu maint a thrafod y Papur Cwmpasu ar gyfer yr ymchwiliad STEM (10.55)**

5 **Trafod y ffilm o gyfweliadau ag entrepreneuriaid busnesau bach a**

**chanolig eu maint (10.55 -11.20)**

6 **Papur cwmpasu ar gyfer yr ymchwiliad dilynol i sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) (11.20-11.45)** (Tudalennau 5 - 16)

Egwyl (11.45-12.00)

7 **Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido'r UE 2014-20 - digwyddiad ymgysylltu gyda Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd (cynhelir y digwyddiad ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, Campws Cyncoed) (12.30-14.30)**

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 19 Chwefror 2014** |
| Amser: | **09.00 – 12.45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_19_02_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Graham (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Keith Davies**<br>**Dafydd Elis-Thomas**<br>**Rhun ap Iorwerth**<br>**Julie James**<br>**Eluned Parrott**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Minister for Economy, Science and Transport**<br>**Rob Hunter, Llywodraeth Cymru**<br>**Yr Athro Gareth Morgan, Cadeirydd y Panel Sector Gwyddorau Bywyd**<br>**James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru**<br>**David Williams, Cadeirydd y Panel Sector Ynni a'r Amgylchedd** |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)** |

Claire Morris (Ail Clerc)
Olga Lewis (Dirprwy Glerc)

## 1 Trafod y Flaenraglen Waith

1.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr eitem hon mewn sesiwn breifat.

1.2 Penderfynodd y Pwyllgor i gynnal dau ymchwiliad yn ystod tymor yr haf, sef ymchwiliad dilynol i sgiliau ym maes Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg; ac ymchwiliad i Dwristiaeth.

1.3 Penderfynodd y Pwyllgor hefyd i gynnal dau ymchwiliad dilynol diwrnod o hyd: i Borthladdoedd ac i Interreg.

1.4 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried cynnal ymchwiliad i'r sectorau economaidd a ddylai gael blaenoriaeth ar gyfer tymor yr hydref.

## 2 Craffu ar y Gymraeg

2.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr eitem hon mewn sesiwn breifat.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i nodi sut y byddai'n cynnwys y gwaith o graffu ar y Gymraeg yn ei flaenraglen waith.

## 3 Gwobrau Ysbrydoli Cymru

3.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr eitem hon mewn sesiwn breifat.

3.2 Penderfynodd yr Aelodau nad oeddent am gymryd rhan fel Pwyllgor yn y Gwobrau Ysbrydoli Cymru.

## 4 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

4.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan David Rees AC a Byron Davies AC. Nid oedd dirprwyon ar eu rhan.

## 5 Ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi - sesiwn dystiolaeth 10 (09.45-10.45)

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Gareth Morgan, Cadeirydd Panel Sector y Gwyddorau Bywyd a David Williams, Cadeirydd Panel y Sector Ynni ac Amgylchedd.

## 6 Adroddiad cynnydd chwe mis a chyllideb alldro 2012-13 (11.00-12.30)

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru. Cynorthwywyd y Gweinidog gan James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru a Rob Hunter, Cyfarwyddwr, Adran Cyllid a Pherfformiad, Llywodraeth Cymru

6.2 Cytunodd y Gweinidog i:

- ddarparu manylion ynghylch y trosglwyddiadau a wnaed yn y gyllideb trafnidiaeth 2012-2013, ac ar ba sail yr oedd y buddsoddiadau trafnidiaeth ychwanegol wedi'u blaenoriaethu;

- ddarparu crynodeb o'r ffigurau dadansoddi costau fesul swydd a gydgasglwyd, i ddangos pa fath o gymorth busnes neu gymorth ariannol sy'n darparu'r enillion gorau ar fuddsoddiadau, a nodyn sy'n dangos sut y caiff yr enillion yn sgîl buddsoddiadau eu hasesu gan Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (er enghraifft drwy ddefnyddio panelau buddsoddi a Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru );

- ddarparu dadansoddiad o faint o'r arbedion effeithlonrwydd o £1.6 miliwn, wrth ddarparu prosiect Cyflymu Cymru, a gyflawnwyd drwy dynnu ffioedd yngynghorwyr allanol allan;

- cynnwys dangosyddion trafnidiaeth y Rhaglen Lywodraethu o fewn y bwletin nesaf ar gynnydd bob chwe mis gan y Gweinidog, gyda sylwadau i grynhoi effaith y polisi.

6.3 Cytunodd y Gweinidog hefyd y byddai'r wybodaeth flynyddol ddiweddaraf am yr economi a thrafnidiaeth yn dangos yn glir, ar lefel gweithredu, y swyddi a'r buddsoddi a sicrhaodd y canlyniadau a gyflawnwyd yn 2013-14, ynghyd â'r gwariant sy'n gysylltiedig â chyflawni'r canlyniadau hynny. Yng ngoleuni'r ffaith bod y swyddi a gefnogir wedi'u cyflawni heb unrhyw wariant gan Lywodraeth Cymru, byddai'r Pwyllgor

yn gwerthfawrogi pe bai modd dadansoddi'r canlyniadau o ran swyddi, i ddangos pa swyddi a grëwyd, pa swyddi a ddiogelwyd a pha swyddi a gefnogwyd, ar wahân.

## 7 Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor y dogfennau ategol canlynol:

**EBC(4)-05-14(p.9)** – Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog ynghylch WOMEX, dyddiedig 17 Ionawr 2014
**EBC(4)-05-14(p.10) –** Ymateb y Gweinidog ynghylch WOMEX, dyddiedig 27 Ionawr 2014
**EBC(4)-05-14(p.11) –** TEN-T – Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog, dyddiedig 24 Ionawr 2014
**EBC(4)-05-14(p.12)** – –  TEN-T – Ymateb y Gweinidog, dyddiedig 5 Chwefror 2014
**EBC(4)-05-14(p.13)** – TEN-T – Llythyr gan Herald Ruijters, dyddiedig 06.02.14
**EBC(4)-05-14(p.14) –** Hanes y berthynas rhwng Masnach a Buddsoddi y DU a Llywodraeth Cymru yn ddiweddar

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon